Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Datganiad Canlyniadau Graddau 2019/20


# Y Drindod Dewi Sant

Mae disgwyl i Brifysgolion yng Nghymru a Lloegr gyhoeddi Datganiad Canlyniadau Graddau fel y nodwyd gan Ddatganiad o Fwriad Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd (UKSCQA) i amddiffyn gwerth graddau'r DU.


Mae ein Datganiad Canlyniadau Graddau yn amlinellu'r proffil dosbarth gradd ac yn cadarnhau bod ein canlyniadau gradd yn cael eu hadolygu'n flynyddol, trwy broses ansawdd academaidd y Brifysgol gan sicrhau bod ein safonau academaidd wedi'u pennu a'u cynnal yn briodol o ran disgwyliadau allanol.

# Proffil Dosbarth Graddau Y Drindod Dewi Sant

Cyflwynir ein proffil dosbarthiad gradd isod, ac mae'n cynnwys data dosbarthiad gradd ar gyfer myfyrwyr israddedig sy'n cyflawni graddau a ddosbarthwyd ar Lefel 6 (Baglor) a Lefel 7 (Meistr Integredig) fel y diffiniwyd gan [Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch] (FHEQ).





Dengys y data y bu cynnydd yng nghyfran y myfyrwyr sy'n cael dosbarthiadau da (1af a 2.1) dros y cyfnod o chwe blynedd (2014/15 i 2019/20), o 50.2% i 75%. Mae'r cynnydd o 25% pwynt o ganlyniad i ailgalibro algorithm gradd y Brifysgol yn 2015/16. Daeth yr ailgalibro hwn â dyfarniadau'r Drindod Dewi Sant ar yr un llinell ag arfer y sector. Ers yr ailgalibro, bu'r cynnydd yn lled debyg i'r sector, ac ni fydd braidd ddim newid rhwng 2017/18 a 2019/20 (tua 74%). Bu'r cynnydd mewn graddau anrhydedd da yn 2019/20 yn is na chynnydd cyfartalog y Sector yn y DU a Chymru.





Dengys y data bod amrywiaethau yng nghyfran y myfyrwyr sy'n cyflawni dosbarthiadau gradd anrhydedd da rhwng dosbarthiadau pwnc yn y Brifysgol. Yn gyffredinol mae'r amrywiaethau hyn ar yr un llinell â meincnodau cenedlaethol.

# Dadansoddiad o Raddau Anrhydedd Da (1af a 2.1) yn ôl Nodweddion Myfyrwyr





Trwy gydol y cyfnod, mae gwahaniaeth bach rhwng perfformiad myfyrwyr ag anabledd datganedig a'r rheiny nad oes ganddynt anabledd datganedig. Mae gwasanaethau cefnogi cryf ar waith gan y Brifysgol ac fel arfer mae myfyrwyr sydd ag anabledd datganedig wedi cyflawni graddau anrhydedd da ar gyfradd debyg i fyfyrwyr heb anabledd ac yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol.





Mae bwlch cyson rhwng cyrhaeddiad merched/dynion. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae canlyniadau anrhydedd da myfyrwyr benywaidd wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r DU a Chymru; ond, mewn cyferbyniad â hynny, mae canlyniadau myfyrwyr gwrywaidd wedi parhau'n is na chyfartaleddau Cymru a'r DU. Yn rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'r Brifysgol wedi adnabod bod dynion o gefndiroedd sosio-economaidd is yn fwy tebygol o straffaglu yn y Brifysgol. Mae nifer o lwybrau amgen, yn cynnwys Gradd-brentisiaethau, wedi cynyddu cyrhaeddiad yn y grŵp hwn.

## % GRADDAU ANRHYDEDD DA
## YN ÔL ETHNIGRWYDD




Mae'r Brifysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gau'r bwlch mewn graddau anrhydedd da rhwng myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a rhai nad ydynt yn fyfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, er ei fod yn ymddangos bod y pandemig wedi cael effaith fwy difrifol ar y grŵp hwn. Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno nifer o fentrau i gefnogi cyrhaeddiad pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, mae'r rhain yn cynnwys rhaglen cam i lefel 5 pwrpasol, adolygiad o asesu a mecanweithiau cefnogi. Caiff ystod o fentrau ychwanegol eu hamlinellu yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol.

## % GRADDAU ANRHYDEDD DA
## YN ÔL GRŴP OEDRAN




Yn rhan o'n hymrwymiad i ddysgu gydol oes, mae gan y Brifysgol ganran gynyddol o fyfyrwyr hŷn. Yn 2019/20, roedd 80% o fyfyrwyr Y Drindod Dewi Sant yn 21 oed neu'n hŷn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, cynnydd o 2% ers 2018/19, gyda 44% o'r boblogaeth myfyrwyr dros 30 oed. Yn draddodiadol mae ein myfyrwyr hŷn, yn arbennig y rheiny sy'n dod i astudio ar ôl troi'n 30 oed, wedi perfformio dros gyfartaledd y sector o ran cyflawniad gradd. Nid yw'r cwymp bach mewn cyrhaeddiad myfyrwyr yn yr ystod oedran 30+ yn ystod y pandemig yn syndod o ystyried y tebygolrwydd bod mwy o bwysau teuluol a gwaith ar y grŵp hwn.

## Ymarferion asesu a marcio

Mae ein system drosolwg ansawdd academaidd, a amlinellir yn fanwl yn ein Rheoliadau Academaidd a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig, yn sicrhau bod holl gymwysterau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant o safon academaidd briodol. Yn ogystal, mae ein rheoliadau a pholisïau yn cadarnhau ein harferion asesu a marcio.

Mae ein prosesau cynllunio, cymeradwyo, dilysu, monitro ac adolygu yn sicrhau bod ein disgwyliadau gan raddedigion mewn disgyblaethau wedi alinio â'r datganiadau meincnod pwnc ASA a lle bo'n berthnasol, gofynion y Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoliadol (PSRB).

Mae'r Drindod Dewi Sant yn defnyddio meini prawf marcio gwaelodlin safonol a addasir i ofynion y pwnc i sicrhau bod safonau'n gyson ar draws y sefydliad.

Mae arholwyr ac adolygwyr allanol yn allweddol i'n prosesau sicrwydd. Mae'r sawl a benodir yn academyddion sy'n brofiadol wrth asesu, cynllunio cwricwlwm a chyfoethogi profiad myfyrwyr. Mae arholwyr/adolygwyr allanol yn elfen hanfodol o ddatblygiad rhaglenni ac o asesu myfyrwyr. Caiff arholwyr allanol eu penodi fesul modwl ac maent yn aelodau llawn o Fyrddau Arholi. Mae adolygwyr allanol yn adolygu holl ddogfennau dilysu rhaglen. Caiff y meini prawf ar gyfer eu penodi a'u rôl eu hamlinellu yn y Rheoliadau ar Asesu: Rhaglenni a Addysgir a chynhelir diwrnod briffio blynyddol ar gyfer pob arholwr ac adolygwr allanol newydd. Darperir crynodeb a throsolwg o adroddiadau arholwyr allanol bob blwyddyn i'r PSA.

Mae staff Y Drindod Dewi Sant hefyd yn gweithredu fel arholwyr ac adolygwyr allanol mewn sefydliadau eraill. Hefyd, mae ystod o gyfleoedd datblygu staff, yn cynnwys gweminarau ar reoliadau, cynlluniau cydnabod cymrodoriaeth AU Uwch a chynhadledd dysgu ac addysgu flynyddol (NEXUS), sy'n cyfrannu at ymwybyddiaeth ehangach o bwyntiau cyfeirio allanol a meincnodi pwnc.

## Llywodraethu academaidd

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r Brifysgol ac mae'n gyfrifol am reolaeth y Brifysgol a'r dull yr ymgymerir â phob agwedd ar faterion y Brifysgol yn effeithlon. Mae'r Senedd yn gyfrifol, ar ran y Cyngor, am bennu polisi a rheoliadau addysgol. Y Pwyllgor Safonau Academaidd, is-bwyllgor o'r Senedd, sy'n bennaf gyfrifol, dan ddirprwyaeth benodol gan y Senedd, am oruchwylio safonau dyfarniadau'r Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad ansawdd blynyddol gan y Senedd ar weithrediad fframwaith ansawdd academaidd y Brifysgol. Mae'r adroddiad, ymhlith pethau eraill, yn rhoi i'r Cyngor y proffil o ganlyniadau graddau, datblygiadau o ran dysgu ac addysgu, sicrwydd gan arholwyr allanol ynghylch safonau academaidd, a chadarnhad o'r ffordd mae'r Brifysgol wedi parhâu i osod a chynnal safonau academaidd yn cynnwys adfyfyrio ar apeliadau academaidd. Yr adroddiad ansawdd blynyddol sy'n sail i'r ffordd y caiff y Cyngor ei sicrhau o safonau academaidd dyfarniadau.

Un o brif brosesau'r fframwaith ansawdd academaidd, ac sy'n sail i'r adroddiad ansawdd blynyddol, yw'r Adolygiad Blynyddol Rhaglenni. Cynhelir Adolygiad Blynyddol Rhaglenni ar lefel clwstwr Rhaglenni, Disgyblaeth Academaidd ac Athrofa, gan adrodd i'r PSA, i sicrhau bod disgwyliadau a gofynion o ran safonau academaidd ac ansawdd profiad myfyrwyr yn cael eu bodloni a bod cynlluniau'n bodoli ar gyfer gwella. Elfen allweddol o'r adolygiad blynyddol yw ystyried setiau data allweddol (e.e. Anrhydeddau Da, Arolygon [ACM, UKES, Deilliannau Graddedigion], tynnu'n ôl) ac adroddiadau arholwyr allanol, i sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu cynnal ac i amlinellu cynlluniau ar gyfer gwella yn y flwyddyn academaidd nesaf.

# Algorithmau dosbarthiadau

Caiff rheoliadau dosbarthiadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Y Drindod) eu cyhoeddi yn ei Rheoliadau Dyfarniadau a Addysgir. Cafodd y rheoliadau hyn eu hadolygu a'u diwygio yn 2015/16.

Yn ystod 2014/15, adolygodd y Brifysgol ei rheoliadau dosbarthiadau gradd i wirio p'un a oeddynt yn alinio ag ymarfer y sector. Cafodd yr adolygiad ei arwain yn allanol gan Adolygydd ASA profiadol a'i seilio ar ymarfer meincnodi allanol, adolygiad o sylwadau arholwyr allanol a dadansoddiad gofalus o ganlyniadau dosbarthiadau graddau. Canlyniad yr ymarfer cynhwysfawr oedd ei fod yn glir nad oedd ein rheoliadau dosbarthiadau graddau yn cydymffurfio ag ymarfer y sector. O ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad hwn cafodd fformiwlâu dosbarthiadau graddau eu haddasu gyda chymeradwyaeth arholwyr allanol. Cafodd y newidiadau eu gweithredu yn y flwyddyn academaidd 2015/16 ac maent yn esbonio'r cynnydd yn nifer y graddau anrhydedd da.

Ers 2015/16 mae'r Drindod wedi defnyddio dau algorithm i ganfod dosbarth myfyriwr ar lefel gradd:

**Dyfarniadau Baglor**

- Cyfartaledd eu 100 credyd gorau ar lefel 6; neu
- Gyfartaledd eu 100 credyd gorau ar lefel 6 gyda phwysiad o 2, a'u 100 credyd gorau ar lefel 5 gyda phwysiad o 1.

**Dyfarniadau Meistr Integredig:**

- Cyfartaledd eu 100 credyd gorau ar lefel 7; neu
- Gyfartaledd eu 100 credyd gorau ar lefel 7 gyda phwysiad o 3, eu 100 credyd gorau ar lefel 6 gyda phwysiad o 2, a'u 100 credyd gorau ar lefel 5 gyda phwysiad o 1.

Yn ogystal, os yw marc terfynol o fewn 2% pwynt i fand dosbarth gradd uwch, dyfernir y dosbarth uwch os oedd o leiaf hanner y credydau lefel uchaf a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r marc cyfartalog cyffredinol terfynol yn farciau wedi'u talgrynnu a ddyfarnwyd sy'n uwch na'r ffin.

Yn 2019/20 a 2020/21, defnyddiwyd rheoliadau wrth gefn i sicrhau nad yw myfyrwyr wedi bod dan anfantais oherwydd y pandemig.  Ni chafodd newidiadau 2019/20 effaith sylweddol ar ganran cyffredinol y myfyrwyr a gyflawnodd radd anrhydedd dda.

Bwriedir cynnal adolygiad ar gyfer y sesiwn academaidd 2021/22 (y bwriad gwreiddiol oedd cynnal hwn yn 202/21 ond fe'i aildrefnwyd o ganlyniad i'r pandemig parhaus) ac fe fydd yn cyfeirio at yr adroddiad Egwyddorion ar gyfer Cynllunio Algorithm Effeithiol.

# Arferion addysgu ac adnoddau dysgu

Caiff Dysgu ac Addysgu ar draws Y Drindod ei nodweddu gan bedair egwyddor allweddol:

- Cydweithredol
- Wedi'i deilwra'n bersonol
- Cynhwysol
- Ffocws proffesiynol

Mae'r pedair egwyddor hon yn adeiladu ar werthoedd strategol Y Drindod sef cynwysoldeb, cyflogadwyedd a chreadigrwydd, a chydweithredu a'i ffocws trosfwaol ar ehangu cyfranogiad a'i hethos dwyieithog. Maent hefyd yn hwyluso ymgysylltu i'r eithaf â gyrwyr allanol allweddol fel Symud Cymru Ymlaen, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, TEF, ACM, a'r Arolwg o Ddeilliannau Graddedigion yn ogystal ag ymgysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol o ran, er enghraifft, dwyster addysgu, elw dysgu, ac addysgu cynhwysol. Mae'r pedair egwyddor allweddol hon hefyd yn cefnogi ymagwedd systematig at wella a chodi perfformiad yn systematig ar draws yr holl feysydd sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu. Yn anad dim, maent yn adlewyrchu ethos penodol dysgu ac addysgu Grŵp Y Drindod Dewi Sant ac yn cofleidio ei chenhadaeth.

Y gwelliannau allweddol i gefnogi dysgu ac addysgu yw:

- Sefydlu Fframwaith Digidol Y Drindod Dewi Sant – Dysgu Cyfunol i ddarparu cefnogaeth a chapasiti sy'n harneisio a gyrru datblygiadau pedagogaidd digidol arloesol ochr yn ochr â llwybrau dysgu proffesiynol newydd.
- Datblygu rhaglen gyfannol o gyfleoedd datblygu a chefnogi staff er mwyn iddynt allu cyfoethogi profiad dysgu myfyrwyr,
- Mae'r Brifysgol yn cynnal cynhadledd dysgu ac addysgu flynyddol (NEXUS) sy'n galluogi i staff y Brifysgol rannu a thrafod arfer da ac addysgeg arloesol ac annog datblygiad gwahanol arddulliau pedagogaidd.
- Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymestyn ei hadnoddau ar-lein yn sylweddol, gan gynnwys gweithredu system Leganto (rhestr ddarllen ar-lein) ar draws y Brifysgol, cyflwyno platfform Abintegro Abi247, platfform digidol sy'n ffocysu ar yrfaoedd, ac ymestyn gwasanaeth cymorth iechyd meddwl ar-lein trwy gynyddu mynediad at TogetherAll a phlatfform Student Space.
- Cwblhau campws newydd yn ardal SA1 Abertawe, yn ogystal â rhaglen fuddsoddi cyfalaf mawr ar bob campws i ddarparu mannau dysgu ac addysgu cyfredol. Cafodd cymhwysiad a chaledwedd dysgu cydweithredol Sony Vision Exchange eu gosod mewn 81% o ystafelloedd addysgu newydd ar gampws SA1.
- Mae'r Brifysgol wedi gweithio'n agos gyda chyflogwyr i sefydlu cwricwla â ffocws proffesiynol trwy nifer o ganolfannau, gan gynnwys Yr Athrofa, yr Uned Prentisiaethau, Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol a Chanolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru yn SA1. Ychwanegwyd at hyn gan ddatblygiad Fframwaith Priodoleddau Graddedigion ar draws y Brifysgol sydd wedi'i fewnosod ar draws cwricwlwm y Brifysgol.